## YR ATODLEN

## TANWYDDAU AWDURDODEDIG

**23.** Homefire Ovals (R), a weithgynhyrchir gan Coal Products Limited yn Immingham Briquetting Works, Immingham, North East Lincolnshire—

(a) sy'n cynnwys gronynnau glo caled (sef rhyw 50 i 75 y cant o'r cyfanswm pwysau), golosg petrolewm (sef rhyw 20 i 45 y cant o'r cyfanswm pwysau), glo meddal (sef rhyw 5 i 17 y cant o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr organig (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu;

(c) sy'n frics glo ar siâp gobennydd wedi'u marcio â dwy linell gyfochrog sydd wedi'u hindentio ac yn rhedeg yn lledredol o amgylch y fricsen ac sy'n pwyso 130 gram ar gyfartaledd; ac

(ch) nad ydynt yn cynnwys mwy na 2 y cant o sylffwr o'r cyfanswm pwysau.